



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYFARFOD, DOGFENNU

Cyfarfod o Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol: 2 Hydref 2024

Cofnodion cyfarfod Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio
Morol ar 2 Hydref 2024.

Cyhoeddwyd gyntaf: 8 Tachwedd 2024

Diweddarwyd ddiwethaf: 8 Tachwedd 2024

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-o-grwp-cyfeirio-rhanddeiliaid-cynllunio-morol-2-hydref-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Yn bresennol

1. Croeso a chyflwyniadau
2. Teyrnged i Gill Bell
3. Adolygiad Annibynnol o Ymagweddau Cynllunio Morol
4. Diweddariad ar Ardaloedd Adnoddau Strategol
5. Ceblau Tanfor a Gwasgfa Ofodol
6. Diweddariad ar ENV_01 (ecosystemau morol cydnerth) ac ENV_07 (rhywogaethau a chynefinoedd pysgod)
7. Unrhyw fater arall

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-o-grwp-cyfeirio-rhanddeiliaid-cynllunio-morol-2-hydref-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Yn bresennol

Eluned Jones (Cadeirydd, Llywodraeth Cymru), Megan Nicholas & Morgan Commins (Llywodraeth Cymru), Charlotte Brill (Cefas / Llywodraeth Cymru), Julian Whitewright (Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru), John Wrottesley (European Subsea Cables Association), Emma Thorpe & Olivia Ross (Cydbwyllgor Cadwraeth Natur), Rowena Haines a Shaun Gaffey (RSPB), Chloe Wenman (Cymdeithas Cadwraeth Forol), Gareth McIlquham, Natalie Queffurus & Allan Pitt (Arup), Tessa Marshall (Cyswilt Amgylchedd Cymru), Jean-Francois Dulong (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Nick Salter a Helen Croxson (Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau), Emma Harrison a Tristan Bromley (Ystâd y Goron), Penny Nelson (WWF Cymru), Helen Bloomfield a Lucie Skates (Cyfoeth Naturiol Cymru), Jim Evans (Cymdeithas Pysgotwyr Cymru), Claire Stephenson (Associated British Ports), Jennifer Godwin (Grŵp Defnyddiwr a Datblygwyr Gwely'r Môr), Stephen Jay (Prifysgol Lerpwl), Mark Simmonds (British Ports Association).

1. Croeso a chyflwyniadau

Cadeirydd, Llywodraeth Cymru.

Croesawodd Eluned aelodau newydd i'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol (MPSRG) a cychwynnodd gyflwyniadau bord gron.

2. Teyrnged i Gill Bell

Chloe Wenman, MCS.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-o-grwp-cyfeirio-rhanddeiliaid-cynllunio-morol-2-hydref-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Rhoddodd Chloe ychydig eiriau i goffáu cyn-aelod MPSRG, Gill Bell, a fu farw yn gynharach eleni. Disgrifiodd Chloe Gill fel 'anhygoel o garedig' ac yn 'bencampwr ffyrnig dros y cefnfor', gan eirioli pobl bob amser i 'gofio'r mor'. Dywedodd Chloe fod Gill yn 'benderfynol o weld ein moroedd yn gwella', a bod ei 'hetifeddiaeth yn parhau'.

3. Adolygiad Annibynnol o Ymagweddau Cynllunio Morol

Arup.

Rhoddodd Eluned drosolwg byr o'r Adolygiad Annibynnol o Ddulliau Cynllunio Morol, a fydd yn llywio ystyriaethau ar ddatblygu'r fframwaith cynllunio morol ymhellach yng Nghymru i ddarparu mwy o eglurder a chyfeiriad gofodol ar gyfer datblygu, tra'n diogelu a gwella'r amgylchedd morol. Cyflwynodd Arup, sydd wedi cael eu comisiynu i gyflwyno'r adolygiad.

Cyflwynodd Arup rai sleidiau ar gwmpas yr adolygiad annibynnol a'r dull arfaethedig, gan gynnwys adolygiad o lenyddiaeth ac amlinelliad o'r dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd yr adolygiad llenyddiaeth yn ystyried deddfwriaeth a fframweithiau polisi perthnasol Cymru ac yn cynnwys dadansoddiad astudiaeth achos o ystyriaethau gofodol/sectoraidd perthnasol a systemau cynllunio morol cenedlaethol a rhyngwladol eraill. Bydd hyn yn cael ei ategu gan ymgysylltu â rhanddeiliaid, sy'n canolbwyntio ar gyfweiliadau gydag aelodau o'r MPSRG a gweithdy rhanddeiliaid ehangach. Bydd ail weithdy i rhanddeiliaid yn dilyn yn gynnar yn 2025 i gyflwyno canfyddiadau cychwynnol. Mae'r adolygiad i'w gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2025.

Gwahoddodd Eluned aelodau MPSRG i wneud sylwadau a/neu ofyn cwestiynau. Trafodwyd materion technegol a oedd yn cynnwys:

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-o-grwp-cyfeirio-rhanddeiliaid-cynllunio-morol-2-hydref-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

- ymholiadau ar sut y bydd canfyddiadau'r adolygiad yn cael eu hystyried a'u trin gan Lywodraeth Cymru;
- tynnu sylw at y ffaith bod cydweithredu rhyngwladol trawsffiniol yn ystyriaeth bwysig;
- awgrymiadau i randdeiliaid ymgysylltu â'r adolygiad o lenyddiaeth ac i gynnig cymorth gydag ef.

Gwahoddodd Eluned yr aelodau i roi caniatâd i'w manylion cyswllt gael eu rhannu ag Arup at ddibenion yr adolygiad hwn. Cafwyd caniatâd drwy system bleidleisio.

4. Diweddariad ar Ardaloedd Adnoddau Strategol

Eluned Jones, Llywodraeth Cymru.

Cyflwynodd Eluned drosolwg byr o:

- nod, natur ac effaith arfaethedig Ardaloedd Adnoddau Strategol, ynghyd â'r broses i'w cyflwyno;
- Ardaloedd Adnoddau Strategol arfaethedig ar gyfer Ynni Ffrwd Llanw a'r ymgynghoriad diweddar;
- prif ganfyddiadau a chanlyniadau'r ymgynghoriad hwn; a
- camau nesaf: nod Llywodraeth Cymru yw cwblhau a chyhoeddi Hysbysiad Cynllunio Morol i gyflwyno Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer Ynni Ffrwd Llanw erbyn diwedd 2024, yn amodol ar gytundeb Gweinidogol, a hefyd yn bwriadu ystyried datblygu rhagor o Ardaloedd Adnoddau Strategol posibl ar gyfer sectorau eraill.

Dywedodd Eluned y bydd y sleidiau a gyflwynir ar Ardaloedd Adnoddau Strategol yn cael eu dosbarthu i aelodau MPSRG yn dilyn y cyfarfod.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-o-grwp-cyfeirio-rhanddeiliaid-cynllunio-morol-2-hydref-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

5. Ceblau Tanfor a Gwasgfa Ofodol

John Wrottesley, European Subsea Cable Association (ESCA).

Cyflwynodd John ar Ceblau Tanfor a Gwasgfa Ofodol, gan gynnwys trafod:

- gwahanol fathau o geblau (megis telathrebu a cheblau pŵer), beth mae'n nhw'n ei wneud a pham eu bod yn bwysig;
- gwydnwch cebl tanfor a risgiau cysylltiedig, megis difrod damweiniol;
- pwysigrwydd polisi strategol gyda golwg ryngwladol allanol a chrwn;
- manteision cydweithredu, ymgysylltu ac ymwybyddiaeth dda o geblau da e.e. lleihau'r risg o ddifrod ac i wella cyfleoedd posibl ar gyfer cydfodolaeth;
- rôl ESCA e.e. cynrychioli diwydiant fel llais cyffredin i berchnogion asedau gwely'r môr mewn gofod cefnforol sy'n gynyddol brysur a llawn;
- y berthynas hanesyddol ac esblygol rhwng pysgota a cheblau, sy'n dod yn fwy heriol oherwydd mwy o gystadleuaeth am le;
- datblygu canllawiau cydfodoli ar gyfer ceblau a physgodfeydd; mae ymddiriedaeth a gonestrwydd yn allweddol - does dim rhaid i gydfodoli ymwneud â blaenoriaethu; a
- yr angen i ystyried sectorau eraill wrth feddwl am gydfodoli rhwng ceblau a physgodfeydd.

Yna cymerodd aelodau MPSRG ran mewn sgwrs agored gyda John ar y pwnc hwn.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-o-grwp-cyfeirio-rhanddeiliaid-cynllunio-morol-2-hydref-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

6. Diweddariad ar ENV_01 (ecosystemau morol cydnerth) ac ENV_07 (rhywogaethau a chynefinoedd pysgod)

Megan Nicholas, Llywodraeth Cymru.

Rhoddodd Megan yr wybodaeth ddiweddaraf am waith i ddatblygu canllawiau ar bolisi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNMP) ENV_01 "Ecosystemau morol cydnerth", gan gynnwys gwybodaeth am:

- y cyd-destun polisi, nod ac effaith arfaethedig yn ymarferol; a
- datblygu Datganiad Technegol i ddarparu eglurder, diffiniadau pellach a fframwaith arfer da i arwain a chefnogi ymgeiswyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Yna rhoddodd Megan drosolwg byr o waith i gwmpasu canllawiau posibl ar bolisi WNMP ENV_07 "Rhywogaethau a chynefinoedd pysgod".

Dilynwyd hyn gan drafodaeth fer ar y gwaith hwn.

7. Unrhyw fater arall

Pawb.

Ni chodwyd unrhyw fater arall. Diolchodd Eluned i'r aelodau am fod yn bresennol ac am gymryd rhan yn y cyfarfod heddiw.

Diwedd y cyfarfod.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-o-grwp-cyfeirio-rhanddeiliaid-cynllunio-morol-2-hydref-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllnwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-o-grwp-cyfeirio-rhanddeiliaid-cynllunio-morol-2-hydref-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).